



HM Revenue  
& Customs

# Your little extras and big benefits









# A great place to work

We believe that HMRC is a great place to work and know that a good work life balance is important for us all. We want to ensure your well-being is provided for, alongside the opportunity for a long, happy and rewarding career. This has led to a huge number of our employees staying with us for many years and have actively used, been rewarded or taken part in many of the benefits, extras and memberships we tell you about in this handbook.

When you join us you also join a friendly and helpful community. We'll give you the support you need to grow in confidence, help you enjoy your time inside and outside the work place and as your life changes, there will be things in this book that may come in handy if the need arises.

So whether you want to map out your career progression and aim even higher, manage your own wellbeing better, or work in a positive and inclusive environment, we are here to support you. Below is a great rundown of all the benefits and schemes that are open or available to you once you join us. Read on to find out more as we think you'll be surprised at just what we can offer you here at HMRC.

## Contents

-  3 Time off and flexible working
-  4 Money matters
-  5 Your career starts here
-  6 Health, wellbeing and you time
-  7 Diverse, inclusive and equal
-  8 Little extras, savings and discounts

# Time off and flexible working

## Annual, public and privilege leave

If you join us on or after 1 September 2021 we'll give you 25 days annual leave in your first year (If you join us before this date you'll get 22 days annual leave, increasing to 25 days from 1 September 2021). After that, for each year of service you will get one additional days leave up to a maximum of 30 days. For example, if you are with us for three years you'll get 28 days annual leave in your third year. As an added bonus we'll also give you an extra privilege day off for the Queens birthday.

## Working from home

We recognise the work-life benefits when you're able to work flexibly from different locations. We want to support as many people as possible to work from home. So, if your personal circumstances, role and work are suitable you will have the opportunity to work from home for two days a week, or more where the business agrees.

## Alternative and flexible working patterns

To help support a good work life balance, we offer flexible working where and when possible. This will vary dependant on the business area you work in and the business need. This could include various start/finish times and flexible lunch breaks. We'll also consider requests for alternative working patterns such as part-time working (including job sharing, job splitting, Term Time and partial retirement).

## Maternity, paternity, adoption and parental leave

For new parents and soon to be parents, we offer maternity and adoption pay of 26 weeks at your normal rate of pay, followed by a further 13 weeks at the statutory rate depending on the length of your continuous service. You can also take another 13 weeks unpaid maternity/adoption leave. Eligible employees will be entitled to claim 'Shared Parental Leave' of up to 39 weeks within one year from the birth or placement. For paternity leave we currently give two weeks on full pay, which will increase to four weeks paid leave from 1 September 2021. In addition, we offer up to 18 weeks unpaid parental leave. Although no more than four weeks each year until your child reaches their 10th birthday (18, if they are disabled).

## Special paid/unpaid leave

We all have to deal with unforeseen circumstances, medical appointments and emergencies. In some circumstances there is a statutory right to time off, for instance, to carry out certain public duties or for emergencies involving dependants. In these cases a reasonable amount of time off must be granted. In some cases time off is discretionary and subject to business need, however your manager will be able to advise you on your leave options.



"The support here is also really helpful. When I was caring for my mum while I was on my course, I was advised to get a Carer's Passport. It was an absolute life saver because it meant other people understood what stresses and strains you were under."

Christine, Diverted Profits team

# Money matters

## Civil Service Pension Scheme

For some of our people, pension age may be a long way off, but whatever stage of life when your career starts with us, we want to help you plan for this. When you join us you will be automatically enrolled into the Civil Service Pension Scheme, if you are not already. This means whilst you have to contribute, our additional employer contribution will help your retirement be more comfortable when your time comes, compared to some pensions in the private sector. You can find out more at [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Advance of salary

We acknowledge that there are times where you have to pay out a significant amount of money to be in work. For some of these circumstances we have an 'Advance of Salary' scheme that covers things such as:

- cost of travel season tickets
- car parking permits
- bicycle purchase
- childcare costs.

## Free financial advice

We know that financial circumstances can be confusing and cause unnecessary worry at times. That's why our people all have free access to 'The Money Advice Service'. Set up by the government, they provide free and impartial money advice, guides to help improve your finances, with tools and calculators to help keep track and plan ahead. This support is available over the phone and can also be accessed online.



# Your career starts here

## Developing your career path

We believe that everyone is talented. Our aim is to embrace and celebrate the diversity and skills of all our people. We'll provide opportunities for you to perform at the best of your ability. Our Civil Service Learning portal offers a gateway to a vast range of learning and development tools, including professional upskilling leading to recognised qualifications in a wide range of professions including HR, Management, Communications, Project Management, and Operational Delivery.

## Development opportunities

We want to release and encourage the potential inside everyone, and there is support, help and programmes designed to assist you in your development and career across the Civil Service, this means:

- everyone gets a minimum of five formal days learning and development; provided through online, face to face or coaching
- covering a range of learning: profession-specific, soft skills, technical skills
- we also have specific targeted development programmes for colleagues looking to progress to the next grade and targeted programmes to help BAME colleagues reach senior roles
- approved volunteering, with up to three days paid special leave.

## Access to more job opportunities

When you start with us you will have access to apply for HMRC job vacancies that are not available externally. You will also have access to job vacancies that are only advertised across government departments.

## Apprenticeships

We can offer employees of any age an opportunity to "learn while you earn" with an HMRC apprenticeship. In some instances, vacancies are advertised as apprenticeship roles and with these you'll be an apprentice from day one. We also offer opportunities for others to apply for an apprenticeship at a later date in their employment. Whilst you are in a job role, we will also pay apprentices the same as others in the same grade.



"As apprentices we get a lot of exposure, like training and extra courses. You're able to see the different routes that you could go into, or you can completely change departments. There's so many ways you can progress."

Annalise, Fast Track Apprentice

# Health, wellbeing and you time

## Free Employer Assistance Programme

When you start, you'll have access to free, independent, confidential, support services provided by 'People Asset Management Group'. They provide 24hr support, 365 days a year, where you can get clinical and professional expertise covering a wide range of topics such as work, family and personal issues.

## Low cost healthcare

Health for all of us and our families can be a worry, you can obtain low-cost health cover through CS Healthcare or Benenden Health, and we can help find the best option for you and also cover your family. There are several packages designed to meet different needs, budgets and lifestyles, giving you fast access to the best medical treatment should the need arise.

## Free eyesight testing

Look after your eyes. Eye care is important so that's why we offer free eye testing for all our employees, which is a particular concern for employees that use a computer screen or similar over long periods when at work.

## Mental health awareness

We understand mental health can be affected at any point in your life. Our employees can join the Mental Health Network (MHN) which is a colleague-led group with the aim of reducing stigma around mental health. So whether you personally struggle with mental health, have experience through a family member, friend or colleague or would just like to learn more to support others MHN can help.

## Sports and leisure

We want everyone to have access to sports, leisure activities and days out. Even a small amount of activity can make a real difference to your wellbeing. For a small fee, you can join Civil Service Sports Council's, Sport and Leisure (CSSC) giving access to a wide range of activities, discounts and free offers for members.

You can also join Revenue and Customs Sports and Leisure, who organise sports events and leisure activities for all standards of fitness.



# Diverse, inclusive and equal

## Staff Diversity

We want everyone to feel valued, supported, and be their true self at work. To help achieve this we have several Staff Diversity Networks that cover Race, Disability, Lesbian Gay Bisexual, Transgender, Gender and Carers. We also have consultation groups for Age and Religion or Belief. You'll be able to join any of these Networks when you join us, and getting involved is easy.

## The Race Network

We're here for all our colleagues who have a passion for equality, diversity and inclusion. We're helping build an organisation that represents the diverse communities we serve. We do this by promoting effective policies and raising awareness of race issues. And we work with colleagues to give them the tools and confidence they need to fulfil their aspirations and potential.

## LGBT+ network

We provide a welcoming and inclusive environment where colleagues are encouraged to be themselves. PRISM is our LGBT+ staff network consisting of approximately 4,500 members, which gives information and advice to anyone not just the LGBT+ community. We collaborate closely with Stonewall providing help, guidance and support to both managers and staff.

## Disability initiatives

We offer an inclusive work environment for everyone. We aim to make sure that people with disabilities have access to the same opportunities as others to develop full and rewarding careers. Some services we provide include:

- consulting colleagues about changes at work
- Staff Disability Network
- specialist equipment and software to help provide inclusive working for the majority of impairments
- writing our documents and other materials in accessible formats.

## Gender equality

We are an award winning champion for gender equality, taking pride in our diverse range of colleagues and aim to support everyone's wellbeing by providing a working environment that values its workforce and removes discrimination and harassment.

## Social mobility

We have been recognised as a leader across the Civil Service in this field. We celebrate and welcome people from all walks of life and backgrounds to apply for our roles. Also, we run a STRIDE mentoring programme which addresses the link between socio-economic background and career progression to ensure that everyone has the same opportunities for learning and progression.



"I've never felt like I've had to stop being who I am at work. Since I joined, there's much more engagement in terms of diversity and inclusion. We always watch out for each other."

Umo, Debt Management department

# Little extras, savings and discounts

## CSSC discounts

As mentioned earlier in our handbook regarding sports and leisure, for a very small monthly charge you can get membership of the 'Civil Service Sports Council' (CSSC). In addition to the sport and leisure activities, you get savings and discounts too:

- savings on shopping
- savings at over 3,000 gyms and health clubs
- discounted insurance
- cinema and theme park discounts
- free and discounted entry to English Heritage and CADW Wales.

## Discounts on high street brands and hotels

We all like to save money. So our free benefits portal 'mylifestyle' gives you access to discounts on over 260 top brands and supermarkets which could save you up to £1,000. In addition, who doesn't like a few nights away for a well-deserved break? Well there are also booking discounts available to employees with The Hilton and Marriott Group hotels.

## Motoring discounts

You can choose to join 'Boundless' by Civil Service Motoring Association. This gives you access to money-saving deals, events, perks and discounts on everything from breakdown cover to insurance on your vehicle and home.

## Cycle to Work scheme

Keen cyclists can take advantage of 'The Cycle to Work' (CtW) scheme as part of the Government's Green Transport Plan to promote healthier journeys to work and reduce pollution. The scheme benefits are:

- Not paying tax and NI on the amount of your gross salary that relates to the hire of a bike and equipment. Salary sacrifice can be up to a maximum of £4,000.
- You can use the bike and equipment in your spare time and for cycling to work.
- At the end of the hire period you can choose to keep the bike for a small fee.

## Trade Union membership

By now you'll see we recognise that employees need to be fully supported. When you start with us you can choose to join a trade union. The Public and Commercial Services Union (PCS) represent people across the civil service and government agencies, making them the UK's largest civil service trade union.

The Association of Revenues & Customs (ARC) is the union representing senior managers at Grade 7 and above, as well as professionals in HMRC.





For more information on HMRC benefits and details on what it's like to work in HMRC please visit our HMRC pages on [gov.uk](https://www.gov.uk)

Disclaimer: This publication is a general guide. Benefits, memberships and/or partner organisations listed may change. Further information can be found at: [gov.uk](https://www.gov.uk)

V13 Issued by  
HM Revenue and Customs  
April 2021 © Crown Copyright 2021

[gov.uk/hmrc](https://www.gov.uk/hmrc)



"It's great that there are vast opportunities for career progression all over the country, and in many different professions."

Richard, Head of Resource and Delivery for HR Operations



Cyllid &  
Thollau EM

# Eich buddion bach a manteision mawr









# Lle gwych i weithio

Credwn fod CThEM yn lle gwych i weithio ac rydym yn gwybod bod cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn bwysig i ni gyd. Rydym am sicrhau y darperir ar gyfer eich lles, ochr yn ochr â'r cyfle am yrfa hir, hapus a gwerth chweil. Mae hyn wedi arwain at nifer enfawr o'n cyflogeion yn aros gyda ni ers blynnyddoedd lawer ac maen nhw wedi mynd ati i elwa ar y manteision, y buddion a'r aelodaethau rydym yn cyfeirio atynt yn y llawlyfr hwn.

Pan ymunwch â ni, byddwch hefyd yn ymuno â chymuned gyfeillgar a chymwynasgar. Byddwn yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i fagu hyder, eich helpu i fwynhau'ch amser y tu mewn a'r tu allan i'r gweithle ac, wrth i'ch bywyd newid, bydd pethau yn y llyfr hwn a allai fod yn ddefnyddiol os bydd yr angen yn codi.

Felly p'un a ydych chi am gynllunio llwybr eich gyrfa ac anelu hyd yn oed yn uwch, rheoli eich lles eich hun yn well, neu weithio mewn amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol, rydyn ni yma i'ch cefnogi. Isod mae rhestr hwylus o'r holl fuddion a chynlluniau sydd ar agor neu ar gael i chi ar ôl i chi ymuno â ni. Darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy. Credwn y cewch eich synnu gan yr hyn y gallwn ei gynnig i chi yma yn CThEM.

## Cynnwys

-  3 Amser i ffwrdd a gweithio'n hyblyg
-  4 Materion ariannol
-  5 Mae'ch gyrfa yn dechrau yma
-  6 Iechyd, lles ac amser i chi'ch hun
-  7 Amrywiol, cynhwysol a chyfartal
-  8 Buddion bach, arbedion a gostyngiadau

# Amser i ffwrdd a gweithio'n hyblyg

## Gwyliau blynyddol, cyhoeddus a braint

Os byddwch yn ymuno â ni ar neu ar ôl 1 Medi 2021, cewch 25 diwrnod o wyliau blynyddol yn ystod eich blwyddyn gyntaf (Os byddwch yn ymuno â ni cyn y dyddiad hwn, cewch 22 diwrnod o wyliau blynyddol, a bydd hynny'n cynyddu i 25 diwrnod o 1 Medi 2021 ymlaen). Ar ôl hynny, cewch un diwrnod ychwanegol am bob blwyddyn o wasanaeth, hyd at 30 diwrnod. Er enghraifft, os ydych gyda ni am dair blynedd, cewch 28 diwrnod o wyliau blynyddol yn eich trydedd flwyddyn. Fel bonws ychwanegol, rydym hefyd yn rhoi diwrnod o wyliau braint i chi ar gyfer pen-blwydd y Frenhines.

## Gweithio gartref

Rydym yn cydnabod bod gallu gweithio'n hyblyg o wahanol leoliadau yn llesol o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Rydym eisiau cefnogi cymaint o bobl â phosibl i weithio gartref. Felly, os yw'ch amgylchiadau personol, eich rôl a'ch gwaith yn addas, cewch gyfle i weithio gartref am ddau ddiwrnod yr wythnos -neu fwy os yw'r busnes yn cytuno ar hynny.

## Patrymau gweithio amgen a hyblyg

Er mwyn helpu i gynnal cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, rydym yn cynnig gweithio hyblyg lle bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y maes busnes rydych chi'n gweithio ynddo ac anghenion y busnes hwnnw. Gallai hyn gynnwys amseroedd cychwyn/gorffen amrywiol ac egwyliau cinio hyblyg. Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau am batrymau gwaith amgen fel gweithio rhan-amser (gan gynnwys rhannu swyddi, haneru swyddi, gweithio yn ystod tymor yr ysgol ac ymddeol yn rhannol).

## Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu a rhiant

Ar gyfer rhieni newydd a darpar rieni, rydym yn cynnig tâl mamolaeth a mabwysiadu dros 26 wythnos ar eich cyfradd tâl arferol, ac yna 13 wythnos arall ar y gyfradd statudol, yn dibynnu ar hyd eich gwasanaeth parhaus. Gallwch hefyd gymryd 13 wythnos arall o absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu yn ddi-dâl. Bydd gan gyflogeion cymwys hawl i hawlio 'Absenoldeb ar y cyd i Rieni' o hyd at 39 wythnos o fewn blwyddyn o'r enedigaeth neu'r lleoliad. Ar gyfer absenoldeb tadolaeth, rydym yn rhoi pythefnos o absenoldeb ar gyflog llawn ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynyddu i bedair wythnos o absenoldeb â tâl o 1 Medi 2021 ymlaen. Yn ogystal â hyn, rydym yn cynnig hyd at 18 wythnos o absenoldeb rhiant di-dâl nes bod eich plentyn yn cyrraedd ei ben-blwydd yn 10 oed (18, os yw'n anabl). Fodd bynnag, ni chewch gymryd mwy na phedair wythnos o absenoldeb y flwyddyn.

## Absenoldeb arbennig â thâl/heb dâl

Mae'n rhaid i ni i gyd ddelio ag amgylchiadau annisgwyl, apwyntiadau meddygol ac argyfyngau. O dan rai amgylchiadau, mae hawl statudol i amser i ffwrdd, er enghraifft, i gyflawni rhai dyletswyddau cyhoeddus neu os bydd argyfwng gyda rhywun sy'n dibynnu arnoch. Yn yr achosion hyn rhaid rhoi amser rhesymol i ffwrdd. Mewn rhai achosion mae amser i ffwrdd yn ddewisol ac yn amodol ar anghenion y busnes, fodd bynnag bydd eich rheolwr yn gallu eich cynghori ar eich opsiynau o ran absenoldeb.



"Mae'r gefnogaeth yma yn help mawr hefyd. Pan oeddwn i'n gwneud cwrs ac yn gofalu am mam, ces i wybod y byddai Pasbort Gofalwr o les i mi. Roedd e wedi gwneud cymaint o wahaniaeth. Roedd e'n golygu bod pobl eraill yn deall y pwysau a'r straen."

Christine, Tîm Ailgyfeirio Elw

# Materion ariannol

## Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

I rai o'n staff, gall oedran pensiwn fod yn bell i ffwrdd, ond pryd bynnag y dechreuwch eich gyrfa gyda ni, rydym am eich helpu i gynllunio ar ei gyfer. Pan ymunwch â ni, byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, os nad ydych eisoes yn aelod ohono. Er bod yn rhaid i chi gyfrannu at eich pensiwn, bydd ein cyfraniad ychwanegol fel cyflogwr yn helpu i sicrhau bod eich ymddeoliad yn fwy cyfforddus pan ddaw'ch amser, o'i gymharu â rhai pensiynau yn y sector preifat. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Cyflog cynnar

Rydym yn cydnabod bod yna adegau pan fydd yn rhaid i chi dalu cryn arian i allu fod yn y gwaith. Ar gyfer rhai o'r amgylchiadau hyn mae gennym gynllun 'Cyflog cynnar' sy'n ymdrin â phethau fel:

- cost tocynnau tymor teithio
- trwyddedau parcio
- prynu beic
- costau gofal plant.

## Cyngor ariannol rhad ac am ddim

Rydym yn gwybod y gall amgylchiadau ariannol fod yn ddryslyd ac achosi pryder diangen ar brydiau. Dyna pam mae gan ein pobl fynediad rhad ac am ddim at y Gwasanaeth Cyngori Ariannol (The Money Advice Service). Wedi'i sefydlu gan y llywodraeth, maen nhw'n darparu cyngor ariannol diduedd ac yn rhad ac am ddim, canllawiau i helpu i wella'ch materion ariannol, gydag offer a chyfrifanellau i helpu i gadw golwg arnynt a chynllunio o flaen llaw. Mae'r gefnogaeth hon ar gael dros y ffôn a chewch fynd ati ar-lein hefyd.



# Mae'ch gyrfa yn dechrau yma

## Datblygu llwybr eich gyrfa

Rydym yn credu bod pawb yn dalentog. Ein nod yw croesawu a dathlu amrywiaeth a sgiliau ein holl bobl. Byddwn yn darparu cyfleoedd i chi berfformio hyd eithaf eich gallu. Mae porth Dysgu'r Gwasanaeth Sifil yn cynnig ystod eang o offer dysgu a datblygu, gan gynnwys uwchsgilio proffesiynol sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig mewn ystod eang o broffesiynau gan gynnwys Adnoddau Dynol, Rheoli, Cyfathrebu, Rheoli Prosiectau, a Chyflawni Gweithredol.

## Cyfleoedd datblygu

Rydyn ni eisiau rhyddhau ac annog potensial pawb, ac mae cefnogaeth, help a rhaglenni wedi'u cynllunio i'ch cynorthwyo yn eich datblygiad a'ch gyrfa ar draws y Gwasanaeth Sifil - mae hyn yn golygu'r canlynol:

- mae pawb yn cael o leiaf pum diwrnod ffurfiol o ddysgu a datblygu; a hynny ar-lein, wyneb yn wyneb neu drwy hyfforddiant
- mae hyn yn cwmpasu ystod o ddysgu: yn benodol ar gyfer proffesiwn, sgiliau meddal, sgiliau technegol
- mae gennym hefyd raglenni datblygu wedi'u targedu'n benodol ar gyfer cydweithwyr sy'n chwilio am gyfle i symud ymlaen i'r radd nesaf a rhaglenni wedi'u targedu i helpu cydweithwyr sy'n bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) i gyrraedd swyddi uwch
- gwirfoddoli wedi'i gymeradwyo, gyda hyd at dri diwrnod o absenoldeb arbennig â thâl.

## Mynediad at fwy o gyfleoedd am swyddi

Pan ddechreuwch gyda ni, gallwch wneud cais am swyddi gwag CThEM nad ydynt ar gael yn allanol. Bydd gennych hefyd fynediad i swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu ar draws adrannau'r llywodraeth yn unig.

## Prentisiaethau

Gallwn gynnig cyfle i gyflogeion o unrhyw oedran "ddysgu wrth ennill cyflog" gyda phrentisiaeth CThEM. Mewn rhai achosion, mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu fel rolau prentisiaeth a gyda'r rhain byddwch chi'n brentis o'r diwrnod cyntaf. Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd i eraill wneud cais am brentisiaeth yn ddiweddarach yn ystod eu cyflogaeth. Tra'ch bod mewn rôl swydd, byddwn hefyd yn talu prentisiaid yr un peth ag eraill o'r un radd.



"Fel prentisiaid rydyn ni'n cael lot o gyfleoedd, fel hyfforddiant a chyrsgiau ychwanegol. Rydych chi'n gallu gweld y gwahanol lwybrau sydd ar gael, neu gallwch chi newid adrannau yn llwyr. Mae sawl ffordd o symud ymlaen."

Annalise, Prentis Cynllun Carlam

# Iechyd, lles ac amser i chi'ch hun

## Rhaglen gymorth rad ac am ddim ar gyfer cyflogwyr

Pan fyddwch yn dechrau, cewch fynediad at wasanaethau cymorth rhad ac am ddim, annibynnol a chyfrinachol a ddarperir gan 'People Asset Management Group'. Maen nhw'n darparu cefnogaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn, lle gallwch gael arbenigedd clinigol a phroffesiynol sy'n ymdrin ag ystod eang o bynciau fel gwaith, teulu a materion personol.

## Gofal iechyd cost isel

Gall iechyd i bob un ohonom a'n teuluoedd beri pryder - gallwch gael yswiriant iechyd cost isel drwy CS Healthcare neu Benenden Health, a gallwn helpu i ddod o hyd i'r opsiwn gorau i chi a hefyd gynnwys eich teulu. Mae yna sawl pecyn sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu gwahanol anghenion, cyllidebau a ffordd o fyw, sy'n rhoi mynediad cyflym i chi i'r driniaeth feddygol orau pe bai'r angen yn codi.

## Profion llygaid yn rhad ac am ddim

Gofalwch am eich llygaid. Mae gofal llygaid yn bwysig felly dyna pam rydym yn cynnig profion llygaid am ddim i'n holl gyflogeion. Mae gofal llygaid yn bwysig i bawb, yn enwedig i gyflogeion sy'n defnyddio sgrin cyfrifiadur neu ei debyg dros gyfnodau hir yn y gwaith.

## Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl

Rydym yn deall y gellir cael anhawster gydag iechyd meddwl ar unrhyw adeg yn eich bywyd. Gall ein cyflogeion ymuno â'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl (MHN) sy'n grŵp o dan arweiniad cydweithwyr gyda'r nod o leihau stigma o amgylch iechyd meddwl. Felly os ydych yn cael anhawster gyda'ch iechyd meddwl, os oes gennych brofiad ohono drwy aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr, neu os hoffech ddysgu mwy i gefnogi eraill, gall yr MHN helpu.

## Chwaraeon a hamdden

Rydym am i bawb gael mynediad at chwaraeon, gweithgareddau hamdden a diwrnodau allan. Gall hyd yn oed ychydig bach o weithgarwch wneud gwahaniaeth go iawn i'ch lles. Am ffi fach, gallwch ymuno â Chwaraeon a Hamdden Cyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil (CSSC) sy'n cynnig mynediad at ystod eang o weithgareddau, gostyngiadau a chynigion rhad ac am ddim i aelodau.

Gallwch hefyd ymuno â Chwaraeon a Hamdden Cyllid a Thollau, sy'n trefnu digwyddiadau chwaraeon a hamdden ar gyfer ffitrwydd o bob safon.



# Amrywiol, cynhwysol a chyfartal

## Amrywiaeth Staff

Rydym am i bawb deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a bod modd iddynt fynegi eu hunain yn y gwaith. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae gennym sawl Rhwydwaith Amrywiaeth Staff sy'n ymwneud â hil, anabledd, materion LHDT, rhywedd a gofalwyr. Mae hefyd gennym grwpiau ymgynghori ar gyfer oedran a chrefydd neu gred. Byddwch yn gallu ymuno ag unrhyw un o'r rhwydweithiau hyn pan ymunwch â ni, ac mae'n hawdd cymryd rhan.

## Y Rhwydwaith Hil

Rydym yma ar gyfer ein holl gyflogeion sydd ag angerdd am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn helpu i greu sefydliad sy'n cynrychioli'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn gwneud hyn drwy hyrwyddo polisiau effeithiol a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â hil. Ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr i roi'r adnoddau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyheadau a chyrraedd eu potensial.

## Rhwydwaith LHDT+

Rydym yn darparu awyrgylch croesawgar a chynhwysol lle mae cydweithwyr yn cael eu hannog i fod yn nhw eu hunain. PRISM yw ein rhwydwaith staff LHDT+ sy'n cynnwys oddeutu 4500 o aelodau, sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i unrhyw un, nid y gymuned LHDT+ yn unig. Rydym yn cydweithredu'n agos â Stonewall gan ddarparu help, arweiniad a chefnogaeth i reolwyr a staff.

## Mentrau anabledd

Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith cynhwysol i bawb. Ein nod yw sicrhau bod pobl ag anableddau yn cael mynediad at yr un cyfleoedd ag eraill i ddatblygu gyrfaedd llawn a gwerth chweil. Mae rhai gwasanaethau a ddarparwn yn cynnwys:

- ymgynghori â chydweithwyr ynghylch newidiadau yn y gwaith
- rhwydwaith Anabledd Staff
- offer a meddalwedd arbenigol i helpu i ddarparu amodau gwaith cynhwysol i bron bob nam a allai fod ar bobl
- ysgrifennu ein dogfennau a deunyddiau eraill mewn fformatau hygyrch.

## Cydraddoldeb rhwng y rhywiau

Rydym yn hyrwyddwr sy'n ennill gwobrau dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau, yn ymfalchio yn ein hystod amrywiol o gydweithwyr ac yn anelu at gefnogi lles pawb drwy ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi ei weithlu ac yn cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddu.

## Symudedd cymdeithasol

Rydym wedi cael ein cydnabod fel arweinydd ar draws y Gwasanaeth Sifil yn y maes hwn. Rydym yn dathlu ac yn croesawu pobl o bob cefndir i ymgeisio am ein swyddi. Hefyd, rydym yn cynnal rhaglen fentora STRIDE sy'n mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng cefndir economaidd-gymdeithasol a dilyniant gyrfa i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd ar gyfer dysgu a dilyniant.



"Dwi erioed wedi teimlo fy mod i wedi gorfod peidio â bod yn fi'n hun yn y gwaith. Ers i mi ymuno, mae llawer mwy o sylw wedi bod tuag at amrywiaeth a chynhwysiant. Ni bob amser yn gofalu am ein gilydd."

Umo, Adran Rheolaeth Dyledion



# Buddion bach, arbedion a gostyngiadau

## Gostyngiadau CSSC

Fel y soniwyd yn gynharach yn ein llawlyfr wrth drafod chwaraeon a hamdden, am gost fach iawn bob mis gallwch fod yn aelod o Gyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil (CSSC). Yn ogystal â'r gweithgareddau chwaraeon a hamdden, cewch arbedion a gostyngiadau:

- arbedion ar siopa
- arbedion mewn dros 3,000 o gampfeydd a chlybiau iechyd
- yswiriant gostyngol
- gostyngiadau i'r sinema a pharciau thema
- mynediad am ddim a gostyngedig i safleoedd CADW ac English Heritage.

## Gostyngiadau ar frandiau stryd fawr a gwestai

Rydyn ni i gyd yn hoffi arbed arian. Felly mae ein porth buddion rhad ac am ddim, 'mylifestyle' yn rhoi mynediad i chi i ostyngiadau ar dros 260 o'r brandiau ac archfarchnadoedd gorau a allai arbed hyd at £1,000 i chi. Yn ogystal, pwy sydd ddim yn hoffi ychydig nosweithiau i ffwrdd am seibiant haeddiannol? Wel mae gostyngiadau ar gael i gyflogeion gyda gwestai The Hilton a Marriott Group hefyd.

## Gostyngiadau moduro

Gallwch ddewis ymuno â'r cynllun 'Boundless' gan Gymdeithas Moduro'r Gwasanaeth Sifil. Mae hyn yn rhoi mynediad i chi at fargeinion sy'n eich helpu i arbed arian, yn ogystal â digwyddiadau, manteision a gostyngiadau ar bopeth o yswiriant torri i lawr i yswiriant ar gyfer eich cerbyd a'ch cartref.

## Cynllun Beicio i'r Gwaith

Gall beicwyr brwd fanteisio ar gynllun 'Beicio i'r Gwaith' fel rhan o Gynllun Trafnidiaeth Gwyrdd y Llywodraeth i hyrwyddo teithiau iachach i'r gwaith a lleihau llygredd. Buddion y cynllun yw:

- Peidio â thalu treth ac Yswiriant Gwladol ar swm eich cyflog gros sy'n ymwneud â llogi beic ac offer. Gallwch aberthu cyflog hyd at uchafswm o £4,000.
- Gallwch ddefnyddio'r beic a'r offer yn eich amser hamdden ac i feicio i'r gwaith.
- Ar ddiwedd y cyfnod llogi, gallwch ddewis cadw'r beic am ffi fach.

## Aelodaeth o Undeb Llafur

Erbyn hyn, fe welwch ein bod yn cydnabod bod angen cefnogi cyflogeion yn llawn. Pan ddechreuwch gyda ni, gallwch ddewis ymuno ag undeb llafur. Mae'r Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) yn cynrychioli pobl ar draws y gwasanaeth sifil ac asiantaethau'r llywodraeth, gan beri mai nhw yw undeb llafur gwasanaeth sifil mwyaf y DU.

Cymdeithas Cyllid a Thollau (ARC) yw'r undeb sy'n cynrychioli uwch-reolwyr sy'n radd 7 ac yn uwch, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol o fewn CThEM.



I gael rhagor o wybodaeth am fuddion CThEM a manylion sut beth yw gweithio yn CThEM, ewch i dudalennau CThEM ar [gov.uk](https://www.gov.uk)

Ymwadiad: Mae'r cyhoeddiad hwn yn ganllaw cyffredinol. Gall buddion, aelodaethau a/neu sefydliadau partner a restrir newid. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar ein tudalennau gwe: [gov.uk](https://www.gov.uk)

V13 wedi'i gyhoeddi gan  
Cyllid a Thollau EM  
Ebrill 2021 © Hawlfraint y Goron 2021

[gov.uk/hmrc](https://www.gov.uk/hmrc)



“Mae'n wych bod cyfleoedd helaeth ar gyfer dilyniant gyrfa ar hyd a lled y wlad, ac mewn llawer o wahanol broffesiynau.”

Richard, Pennaeth Adnoddau a Chyflawniadau ar gyfer Gweithrediadau Adnoddau Dynol